Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Y Ganolfan Ddinesig
Stryd y Castell
Merthyr Tudful
CF47 8AN

Dyddiad yr ymweliad: Gorffennaf 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod y darparwr wedi gwneud cynnydd digonol o ran yr argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu'r darparwr oddi ar y rhestr o ddarparwyr mewn categori gweithgarwch dilynol.

## Cynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r arolygiad craidd

### A1 Atgyfnerthu ymrwymiad y bartneriaeth i gydweithio a datblygu cynllun strategol clir i ffurfio dyfodol y bartneriaeth a phrosesau i fesur cynnydd yn erbyn y cynllun

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd cryf yn erbyn yr argymhelliad hwn. Ers yr arolygiad craidd, mae'r bartneriaeth wedi datblygu grŵp strategol gyda chynrychiolaeth o'r tri phrif bartner cyflwyno, sef Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Y Coleg Merthyr Tudful ac Addysg Oedolion Cymru. Mae uwch arweinwyr o bob partner yn cadeirio is-grwpiau sy'n bwydo i mewn i'r grŵp strategol. Mae uwch arweinwyr wedi dangos ymrwymiad ac wedi gweithio'n dda i 'ailosod' y bartneriaeth a datblygu momentwm i yrru gwelliant.

Mae cynllun strategol y bartneriaeth wedi'i strwythuro o gwmpas argymhellion yr arolygiad, yn ogystal â blaenoriaeth ychwanegol yn gysylltiedig â datblygu'r gweithlu. Mae mecanweithiau ar gyfer llywodraethu a chraffu ar gynnydd y bartneriaeth wedi eu hymgorffori'n briodol, er enghraifft trwy bwyllgor craffu'r Cyngor, cynllun gwella busnes yr adran a chorff llywodraethol y coleg.

Mae'r bartneriaeth wedi monitro'i chynnydd yn erbyn yr argymhellion o'r adroddiad arolygu yn dda ac mae ganddi ddealltwriaeth glir o'i chryfderau a'i meysydd i'w gwella. Mae'r bartneriaeth wedi gwneud defnydd da o offeryn effeithiolrwydd partneriaeth Y Sefydliad Dysgu a Gwaith i driongli ei gwerthusiadau.

Mae uwch arweinwyr o brif bartneriaid cyflwyno'r bartneriaeth yn disgrifio gweledigaeth glir ar gyfer datblygu'r bartneriaeth yn y dyfodol, yn cynnwys ymglymiad partneriaid cyflwyno a phartneriaid cymunedol newydd, a darpariaeth sy'n arwain at ddilyniant defnyddiol.

Cynrychiolwyd pob partner yn y cyfarfodydd yn ystod yr ymweliad hwn, ac ymweliadau monitro blaenorol, a mynegont hyder mewn gwaith partneriaeth parhaus a'u hymrwymiad i'r bartneriaeth.

## A2 Adolygu cynnig darpariaeth y bartneriaeth i sicrhau ei fod yn diwallu anghenion dysgwyr a darpar ddysgwyr, ac yn cynnig llwybrau clir ar gyfer dilyniant

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud llawer o'r gwaith paratoi sydd ei angen i ddatblygu darpariaeth gydlynus ar gyfer ei chymunedau. Mae partneriaid wedi ystyried eu darpariaeth ac wedi creu 'map' o'r ddarpariaeth yn dangos y cynnig gan bob partner. Caiff hwn ei ddefnyddio i helpu llunio cyfathrebu gyda dysgwyr a darpar ddysgwyr, cynllunio dilyniant, a lleihau dyblygu darpariaeth sy'n ddi-fudd.

Mae'r bartneriaeth wedi cynnal ystod o weithgareddau ymgysylltu defnyddiol i wrando ar ddysgwyr a darpar ddysgwyr ac wedi dadansoddi'r wybodaeth am y farchnad lafur i lywio'i phroses ar gyfer cynllunio darpariaeth strategol.

Mae'r amlinelliad o gynllun y ddarpariaeth ar gyfer ei chyllid grant dysgu oedolion yn y gymuned ar gyfer 2026-2027 yn canolbwyntio'n addas ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, gyda'r bwriad i gefnogi dysgwyr i ddilyn llwybrau dilyniant ar gyfer cyflogaeth, fel rhaglenni mewn cymwysterau adeiladu neu gymwysterau cynorthwyydd addysgu a gynigir gan y coleg neu Addysg Oedolion Cymru.

## A3 Sicrhau bod darpar ddysgwyr a dysgwyr presennol yn gallu mynd yn hawdd at drosolwg o gynnig cyrsiau a llwybrau dilyniant y bartneriaeth lawn

Mae'r bartneriaeth wedi gwneud cynnydd cadarn yn bodloni'r argymhelliad hwn. Mae wedi datblygu strategaeth glir a gefnogir yn dda gan bob partner ac mae ystod fuddiol o ddatblygiadau a gweithgareddau i ymgysylltu â darpar ddysgwyr yn sail iddo, yn cynnwys digwyddiad lansio, 'diwrnod i'r teulu' a fframwaith llais y dysgwr.

Mae'r bartneriaeth wedi cryfhau ei phresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, gyda phostiadau rheolaidd am weithgareddau'r bartneriaeth, yn cynnwys digwyddiadau a chyrsiau ymgysylltu â'r gymuned. Mae wedi datblygu gwefan a phrosbectws sy'n hawdd eu defnyddio, a lansiwyd ym mis Medi 2025. Mae'r wefan yn galluogi dysgwyr a darpar ddysgwyr i weld ystod y ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y bartneriaeth, a chysylltu â gwefannau partneriaid eraill trwy ddolenni.

Mae gan y bartneriaeth brosbectws papur manwl hefyd, sydd ar gael mewn lleoliadau allweddol ar draws y fwrdeistref. Mae'r ddogfen yn cynnwys gwybodaeth glir ynglŷn â'r llwybrau sydd ar gael i ddarpar ddysgwyr a'u llwybrau dilyniant.

Mae'r bartneriaeth yn parhau i adolygu'r ffyrdd y mae'n ymgysylltu â'i chymuned, trwy gysylltiadau â gwasanaethau eraill y Cyngor, grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr lleol.

## A4 Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cofrestru ac yn elwa ar ddarpariaeth graidd dysgu oedolion yn y gymuned y bartneriaeth

At ei gilydd, mae'r bartneriaeth wedi cynyddu cofrestriadau dysgwyr unigryw ers adeg yr arolygiad craidd, o 519 yn 2024-2025 i 595 yn 2025–2026, gan fodloni'r targedau cynyddrannol addas yr oedd y bartneriaeth wedi eu gosod iddi hi ei hun.

Mae'r bartneriaeth yn cydnabod bod angen cynnal a chynyddu cofrestriadau dysgwyr, ac mae'r agwedd hon yn parhau i fod yn ffocws allweddol yn ei strategaethau trosfwaol. Mae ffocws parhaus y bartneriaeth ar gynnal cysondeb ac adeiladu ar ddulliau llwyddiannus ar draws pob partner yn sbardun allweddol ar gyfer eu gwaith yn y blynyddoedd i ddod. Mae dogfennau cynllunio darpariaeth y bartneriaeth yn gosod targedau clir a heriol ar gyfer recriwtio dysgwyr am y flwyddyn i ddod.

## A5 Rhoi systemau a phrosesau effeithiol ar waith ar draws y bartneriaeth ar gyfer cofnodi a chyfleu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gofynion cymorth unigol dysgwyr, ac ar gyfer sicrhau bod y rhain yn cael eu cefnogi

Mae partneriaid wedi cydweithio'n effeithiol i rannu arbenigedd a rhoi systemau gwell ar waith ar gyfer nodi a chefnogi dysgwyr ag anghenion cymorth dysgu ychwanegol. Mae hyn wedi cryfhau dealltwriaeth tiwtoriaid o ofynion dysgwyr ac wedi gwella'u gallu i deilwra cymorth yn effeithiol.

Er enghraifft, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi addasu ei offeryn sgrinio anghenion cymorth dysgu ychwanegol, ac wedi datblygu mecanweithiau newydd ar gyfer rhannu anghenion cymorth yn ddiogel rhwng tiwtoriaid o fewn eu darpariaeth.

Mae tiwtoriaid ar draws y bartneriaeth wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol ar y cyd sydd wedi canolbwyntio ar strategaethau addysgu ar gyfer cynorthwyo dysgwyr ag ystod amrywiol o anghenion. Dywed tiwtoriaid fod hyn wedi bod yn effeithiol o ran eu harfogi ag ystod ehangach o offer addysgu.

Mae'r bartneriaeth yn parhau i gynnal ffocws ar ddatblygu gallu tiwtoriaid i gefnogi anghenion cymorth unigol dysgwyr.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 04/09/2026